


# Y SELAR

Rhif 71 //
HAF //
2026

## Lafant

Rhifyn Steddfod y Garreg Las

# YMAELODWCH A'R CLWB




Ydach chi'n aelod o Glwb Selar eto?
Os felly, pam ddim!




Record feinyl aml-gyfrannog SELAR3 – copi wrth ymuno fel lefel Gitarydd Blaen neu uwch

### BETH YN UNION YDY CLWB SELAR DWI'N CLYWED RHAI'N HOLI?

Wel, mae o'n gyfle i chi gefnogi'r gwaith mae'r Selar yn gwneud yn y cylchgrawn (rhad ac am ddim) yma, ar ein gwefan selar.cymru, ac i hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg gyfoes trwy gydol y flwyddyn.

### BETH SYDD YNDDI I CHI?

Yn syml iawn – llwyth o bethau cerddorol ecsgliwsif gwych gan Y Selar!

Gan ddibynnu ar eich lefel aelodaeth, byddwch yn derbyn anrhegion arbennig a chynigion ecsgliwsif yn rheolaidd trwy'r flwyddyn.

Am ddim ond £5 y flwyddyn gallwch ddod yn **'Roadie'** a derbyn copi o'r cylchgrawn print trwy'r post bob tro, ynghyd â chylchlythyr misol Clwb Selar gyda chynigion gan Y Selar a'n ffrindiau yn y sin.

Neu beth am fod yn **'Gitarydd Blaen'** am ddim ond £30 y flwyddyn a chael y pethau yma ynghyd ag anrhegion hael fel crys T, copi o flwyddlyfr Y Selar, anrheg Nadolig a chopi o'n record feinyl aml-gyfrannog cyfyngedig.

Isio gwybod mwy neu ymaelodi â'r Clwb? Ewch draw i gael cip ar yr holl lefelau aelodaeth ar wefan Y Selar.

SELAR.CYMRU/AELOD/LEFELAU

# Y Selar

Rhif 71 // HAF // 2026

# Golygyddol

Bydd llawer ohonoch chi mae'n siŵr yn pori trwy'r rhifyn hwn o'r Selar mewn rhyw gae neu'i gilydd ochrau tref Aberteifi neu bentref Llantwd. I'r sawl sydd ddim, bydd y mwyafrif ohonoch yn ymwybodol o leiaf bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld â'r ardal honno eleni. Ac mae'n deg dweud bod pwyslais cryf ar artistiaid Dyffryn Teifi a Gogledd Sir Benfro yn y rhifyn yma o'r Selar – mwy nag y bydden ni fel arfer yn ei roi i ardal benodol yr Eisteddfod fel arfer rhaid cyfaddef.

Mae rheswm da am hynny – ar y naill law, mae gan yr ardal draddodiad a hanes cerddorol hynod o gyfoethog ac unigryw. Mae wedi bod yn fagwraeth i rai o'r artistiaid Cymraeg mwyaf arloesol yn hanes cerddoriaeth gyfoes ac mae'n bwysig dathlu hynny. Ond mae hefyd yn wir dweud bod egni cerddorol newydd yn yr ardal gyda dyfodiad label Fflach Cymunedol a llu o artistiaid ifanc sydd ymysg y mwyaf cyffrous yng Nghymru ar hyn o bryd.

Heb os, mae rhywbeth yn nŵr aber yr Afon Teifi, wrth iddi lifo i geg Bae Ceredigion – efallai bod y diolch i barodrwydd yr afon i dderbyn yr amrywiaeth a ddaw o'r holl isafonydd sy'n ymuno â hi ar ei thaith i'r môr… Afon Mwyro, Camddwr Fach, Nant y Gwragedd, Nant Wern-macwydd, Afon Cynllo, Afon Morgenau, Afon Plysgog, Nant-y-ferwig a llawer mwy. Yn yr un modd ag y mae'r afon yn agor ei glannau i ddyfroedd llu o nentydd, mae cymuned gerddorol yr ardal yn barod iawn i groesawu artistiaid amgen sy'n barod i fentro ac arbrofi. A da o beth am hynny.

Byddwch yn nodi mae'n siŵr ein bod ninau'n arbrofi gyda'r rhifyn penodol yma o'r Selar wrth i ni ystyried ambell newid tymor hir i drefn cyhoeddi'r cylchgrawn. Mae'r fersiwn print yma'n 16 tudalen fydd yn ddigon i roi blas i chi gobeithio, cyn eich harwain at fersiwn digidol llawn trwy ddilyn y côd QR islaw ar y dudalen hon. Cofiwch ein bod yn barod iawn i dderbyn eich sylwadau ac adborth ar ein cyfryngau amrywiol sydd hefyd wedi'u rhestru isod.

***Owain Schiavone***

## cynnwys


| | |
|---|---|
| Morgan Elwy | 4 |
| Llwyddiant Lafant | 6 |
| Mwsog yn hudo'r Almaen | 9 |
| Ail-ddychmygu albwm Ail Symudiad | 10 |
| Newydd ar y sin | 14 |
| Hud a lledrith Dewin | 16 |
| Y Gornel Werin: Lo-Fi Jones | 18 |
| 20 Mlynedd o Lowri Evans | 20 |
| Trac Wrth Drac: Disglair gan Popeth | 22 |


**Llun clawr**: Ceirios Bebb


4


9


16


18


**UWCH OLYGYDD** Owain Schiavone (yselar@live.co.uk)

**DYLUNYDD** Dylunio GraffEG (elgangriffiths@btinternet.com)

**HYSBYSEBION** yselar@live.co.uk

@cylchgrawnyselar
facebook.com/cylchgrawnyselar
@selar.cymru
selar.cymru

**CYFRANWYR**
Lois Gwenllian, Nel Thomas, Angharad Rhiannon

Diolch yn fawr i gyfeillion Y Selar (aelodau Rheolwr a Prif Ganwr Clwb Selar): Ywain Gwynedd, I KA CHING, Antoni a Dawn Schiavone, Gruffydd Davies, Illtud Daniel, Pawlie, Gethin Griffiths, Betsan Evans, Rob Kilby, Manon Thompson.

Ariennir Y Selar gan grant Cyngor Llyfrau Cymru.


Rhybudd - Defnyddir iaith gref mewn mannau.'

SGWRS SYDYN

# MORGAN ELWY




**Fyth ers dod i'r amlwg fel aelod o'r band ysgol, Trŵbz, mae Morgan Elwy wedi bod yn gyson weithgar a datblygu i fod yn enwau amlycaf y sin. Wrth iddo ryddhau ei albwm diweddaraf ddiwedd mis Mai, Angharad Rhiannon fu'n holi mwy ar ran Y Selar.**

**So ma' gyda ti albwm newydd mas?**
Oes, 'Amser Da mewn Amser Drwg', ie.

**A dwi'n teimlo o'r senglau bod hyn yn albwm eithaf hapus?**
Wel, ie, *kind of*, ie. 'Amser Da mewn Amser Drwg' ydy o. Ti'n mynd ar-lein a ti'n gwrando ar y *news* a ma' na lot o bethe chwithig yn digwydd yn y byd ar y funud ond da ni'n fa'ma jyst yn trio cael amser da a thrio dod â phobl at ei gilydd a dyna be ma' lot o'r caneuon amdan rili. Mae 'na lot o negeseuon o heddwch. Dach chi'm yn gorfod ymuno yn yr hali balŵ a'r holl sŵn sy'n mynd 'mlaen yn y byd. Dach chi actually'n gallu jyst cael amser da. Ma' na heddwch i gael os dach chi'n chwilio amdano fo.

Mae 'na lot o bobl yn gwneud gwaith *amazing* ar draws y wlad a dros y byd yn dod â phobl at ei gilydd ac yn creu gwyliau cerddorol a bob math o bethe. Dwi'n joio'r haf a chael mynd o gwmpas yn canu mewn *festivals* a stwff, a dyna be mae lot o'r albwm amdan. Ma lot o'r caneuon wedi cael eu sgwennu ar ôl bod mewn *festival* neu rywbeth fel yna lle mae'r awen yn dal fi ac o'n i isio rhoi clod i'r peth.




**Ers faint wyt ti wedi bod yn gweithio ar yr albwm yma?**
Wel, ers i fi orffen yr albwm dwytha, i fod yn onest. Nes i ryddhau 'Dub yn y Pub' yn ôl yn 2024, tua mis Mawrth, ac oedd yna ambell i gân o'n i wedi dechrau recordio cyn rhyddhau hwnna, so ie dros ddwy flynedd rili rhwng bob dim. Oedd yna lot o hwyl i gael efo 'Dub yn y Pub' ond wnaeth 'Dub yn y Pub' gymryd mwy o amser i fi dwi'n meddwl. Dwi jyst wedi bod yn gweithio ar rhain yn slo bach dros y ddwy flynedd dwytha yn rhyddhau ambell i gân dros y flwyddyn dwytha. Wedyn oedd gynna fi tua 6 trac oedd isio dod allan ac o'n i fel,  ydw i'n rhyddhau nhw *one by one*? So nes i benderfynu rhoi nhw gyd ar albwm.

**Dwi'n siŵr bo ni wedi trafod hyn pan ddaeth 'Dub yn y Pub' mas, ond ti'n neud lot o'r gwaith recordio adre wyt?**
Wel ie dwi'n meddwl bod lot o hwn wedi cael ei wneud yn yr un ffordd. Dwi'n dueddol o gynhyrchu trac ac wedyn ar ôl i fi gael rhyw fath o syniad o'r strwythur dwi'n mynd a'r trac i'r stiwdio hefo Griff sydd yn dda iawn am jyst smasho dryms a gwneud iddo swnio'n *amazing* - so ia, diolch i Griff. Dwi hefyd wedi recordio *vocal line* weithiau yn y stiwdio yn Rachub ger Bethesda. Dwi'n joio mynd i fan'na jyst i gael amser i ffwrdd o fy sgrin fach i rili. Mae lot o'r gwaith gitârs a lot o'r lleisiau cefndir yn cael eu creu adref jyst achos maen nhw'n cymryd lot o amser a lot o *trial and error* ydy o i fod yn onest. Dwi wedi bod yn cydweithio lot efo pobl eraill yn ddiweddar so sa fi'n hoffi gwneud mwy o hynna rili ond ie wedi rili mwynhau gweithio ar hwn a ma'r band wedi bod mor helpgar ti'n gwybod. Ma'n neis cael pobl fatha Mared a fy mrawd Jacob a fy chwaer Mali a Jack Wells sy'n chwarae bas i jyst jympio ar a chwarae ar y tracs weithiau a ma' Edwin Humphries hefyd sydd yn *legendary saxophone player* wedi rhoi llwyth o sax a brass drost yr albwm i gyd, so ddiolchgar iawn i bawb.



**Wel mae'n siŵr bod hi'n help mawr i gael teulu mor gerddorol o dy gwmpas di.**
Yndi dwi'n meddwl. Dwi'n meddwl dan ni'n ysbrydoli ein gilydd. Ma band brodyr fi, TewTewTennau, yn brysur rŵan ond ma' nhw'n rili handi. Weithiau dwi'n gorfod benthyg aelodau o band nhw i ymuno efo fi achos ma' pobl yn brysur. Ma' lein-yp yn y band yn newid yn eithaf aml genna fi ar hyn o bryd gan fod pobl yn brysur. Ma' na gymuned rili neis o gerddorion rili da yng Nghymru sydd yn barod iawn i helpu allan, so ia diolch i bawb.

**Oes gen ti hoff gân ar yr albwm?**
Dwi'm yn siŵr actually. Dwi'n hoffi 'Diawl'. Wnes i ryddhau 'Diawl' nôl tua mis Tachwedd. Mae o bach o fatha *bluesy sort of western reggae vibe* sy bach yn wahanol. Dwi'n rili mwynhau canu 'Amser Da' mewn gigs yn ddiweddar jyst achos mae o'n *really relatable* dwi'n meddwl. Ma' pobl *actually* yn hoffi cael amser da yn enwedig pan maen nhw allan yn gwylio bands so ma' hwnna'n rili hwyl i chwarae. Ia ma' gynna i lot o bethe gwahanol yn yr albwm yma rili. Ie, so *basically* na, sgynna i ddim hoff gân. Pob un!!

**Mae'r albwm ar gael yn ddigidol ond hefyd ar CD da chi hefyd ydy?**
So ie, os dach chi isio prynu CD fydda i'n gwerthu nhw ar Bandcamp ac maen nhw'n edrych yn wych. Mae'n eitha neis cael rhywbeth ffisegol, achos mae lot o fiwsig rŵan jyst yn mynd allan i'r *internet* ac yn cael ei golli yn y tonnau, so neis cael rhywbeth yn dy law dwi'n meddwl. Dwi di neud llyfryn fatha llyfryn lyrics bach. Ma' na gartŵnau bach a jyst *sort of* teimlad am be mae'r cynnwys amdan. Hefyd dach chi'n gallu prynu fersiwn digidol ar bandcamp, neu dach chi'n gallu jyst gwrando arno fo ar unrhyw un o'r *streaming platforms*.



# Clyw lwyddiant Lafant

*Un o'r bandiau ifanc mwyaf cyffrous i ymddangos dros y ddwy flynedd ddiwethaf ydy Lafant. Wedi ffrwydro ar y sin, mae'n triawd o Ogledd Sir Benfro wedi rhyddhau eu halbwm cyntaf, 'Segurdod', ers y Gwanwyn ac mae eu henw'n siŵr o fod ar flaen tafod pawb ar ôl i'r Steddfod ymweld â'u milltir sgwâr eleni.* ***Owain Schiavone*** *fu'n sgwrsio gyda ffryntman y band, Mefin Hughes ar ran* ***Y Selar****.*

Mae gan Aberteifi a Gogledd Sir Benfro dreftadaeth a llinach gerddorol ddigon unigryw a chyfoethog.

Wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld â'r ardal, Ail Symudiad sy'n cael llawer o'r sylw haeddiannol – does dim amau fod cyfraniad y brodyr Wyn a Richard Jones o'r band yn enfawr, nid yn unig o ran eu cerddoriaeth eu hunain, ond fel sylfaenwyr label Fflach fu'n gymaint o gefn i artistiaid lleol.

Ond rhaid peidio anghofio am Datblygu a Malcolm Neon, fu'n arloesi gyda cherddoriaeth arbrofol ar ddechrau'r 1980au ar y naill law, tra bod Rhiannon Thomas ac Y Diawled, Dom, Jess a Mattoidz oll wedi bod ymysg bandiau amlycaf y sin yn eu cyfnod hefyd. A phwy all anghofio am y *boyband* gorau welodd Cymru wrth gwrs, Bois Bach.

Diolch yn rhannol i atgyfodiad label Fflach ar ffurf Fflach Cymunedol, mae artistiaid ifanc yr ardal yn ffynnu ar hyn o bryd – Chwaer, Dewin, Penne Orenne, Emma Davies-Warhurst a Pwrs i enwi dim ond rhai sydd wedi cael cyfleoedd diweddar trwy'r label newydd.

Ond efallai nad oes yr un o artistiaid cyfredol yr ardal yn adlewyrchu'r naws y llinach gerddorol unigryw yna'n fwy na Lafant, gyda'r gymysgedd o sain ffresh ond cyfarwydd, a'r elfen o cŵl diymdrech sy'n plethu gyda hiwmor arbennig yna sy'n rinwedd o'r rhan yma o Gymru. Gallen i'n rhwydd weld Richard a Wyn yn cael lot o hwyl gyda rhain yn y stiwdio.

**"...fydde ddim Lafant yn bodoli rhagor heb Fflach"**



## Dim gwerth bod yn segur

Tyfu o lwch band arall o'r enw Gelert wnaeth Lafant – y nhw enillodd wobr Goffa Richard a Wyn yn Neuadd Hermon yn 2024.

Mefin Hughes o Abergwaun ydy'r gitarydd a'r ffryntman, tra bod Meiddyn Ladd Lewis o Foncath ar y gitâr fas. Mae'r ddau'n gymeriadau go iawn, a'u hiwmor tynnu coes nodweddiadol o'r ardal i'w weld yn glir ar y llwyfan. Mae Sam Howell, sydd hefyd o Abergwaun, yn dawelach ac yn cynnig cadernid i'r triawd, fel y dylai unrhyw ddrymiwr da.

Yn ôl Mefin, daeth y tri ynghyd rhyw ddwy flynedd yn ôl diolch i'w cariad cyffredin at yr un math o recordiau, gigs Cymraeg, ac ysgrifennu a datblygu caneuon.

O ystyried mai oes cymharol fyr sydd wedi bod i'r band hyd yma, mae'n eithaf anghyffredin eu bod wedi llwyddo i recordio a rhyddhau albwm cyntaf yn barod.

"Yn bennaf dwi'n mynd yn *bored* o'n ganeuon i'n gyflym iawn felly dwi wastod ag awydd 'sgwennu rhai newydd a rhoi nhw lawr ar trac mor gynted o phosib" ydy eglurhad ffraeth Mefin am hyn.

Mae mwy iddi na hynny yn sicr gan bod themau cryf i'w gweld ar yr albwm 'Segurdod' - yr amlycaf efallai ydy'r



**“Yn fras o’n i isie esbonio i’r gwrandawyr ychydig o be sy’n mynd mlân yn fy mywyd i...”**

ddelwedd gyson o Adda ac Efa sydd i’w glywed drwy gydol yr albwm gan awgrymu’r themâu clasurol hynny o chwant, trachwant a *sleeze*.

Debyg bod rhain yn themâu sy’n gyfarwydd i artistiaid yn eu hugeiniau cynnar, ynghyd â’r ddeuoliaeth o hunanhyder a phryder y cyfnod ‘dod i oed’ sydd wedi bod yn amlwg gydag artistiaid Cymraeg deallus eraill fel Adwaith a Mellt dros y blynyddoedd diwethaf.

“Pan o ni’n ‘sgwennu hi [y record] o’n i ddim *really* yn meddwl am ‘themâu ar gyfer yr albwm’” meddai Mefin wrth ystyried hyn.

“Dim nes i fi glywed yr albwm yn gyflawn nes i sylweddoli o ble ddaeth rhai or dylanwadau.

“Yn fras o’n i isie esbonio i’r gwrandawyr ychydig o be sy’n mynd mlân yn fy mywyd i tra’n defnyddio sgerbwd hen straeon ma pawb yn gyfarwydd gyda nhw gobeithio, er enghraifft Culhwch ac Owen ac Adda ac Efa.

“Ma’r straeon yma’n sôn am gariad, trachwant ac am ddyfalbarhad, sy’n dri thema amlwg yn yr albwm ac yn fy mywyd i ar yr adeg nes i ‘sgwennu’r record.”

Mae’n naturiol mae’n siŵr bod albyms, ac yn enwedig albyms cyntaf efallai, yn adlewyrchu’r hyn sy’n digwydd ym mywyd y sawl sy’n ysgrifennu’r caneuon. Ond mae’n fwy anarferol bod rhywun yn cyfaddef nad yw’r themâu cryf yma’n dod i’r amlwg nes ar ôl recordio, ac mae hyn yn awgrymu rhyw ddawn cynhenid naturiol.

Os mai ar hap y datblygodd y themâu, yna mae’n amlwg bod mwy o feddwl wedi’i roi i enw’r casgliad.

“‘Segurdod’ yw’r teitl. Ein proses meddwl tu ôl i’r teitl yw pryd chi’n segur neu’n llonydd chi mewn lle eitha’ gwael.

“Fy mwynt yw, falle bod rhaid i chi fentro er mwyn cal be chi isie, ‘sdim werth bod yn segur. Falle bo rhaid i chi ‘fwyta afal o frig y llwyn’ neu fynd i edrych am y ‘nodwydd yn y gwellt’ er mwyn cal be chi isie.”

## Lleisiau newydd yn byrlymu o’r Teifi

Er bod rhinweddau llinach gerddorol Dyffryn Teifi a Gogledd Sir Benfro’n amlwg yn Lafant, ac mae’r band yn sicr yn gwerthfawrogi’r hyn a ddaeth o’u blaen, mae’n arwyddocaol eu bod nhw’n fwy awyddus i ddathlu’r presennol a’r hyn sydd i ddod.

Mae’n glir hefyd nad yw Lafant am orffwys ar eu rhwyfau, neu segura fyddai’n fwy addas, ar ôl rhyddhau’r albwm cyntaf.

“Yn sicr ma ni’n fans mawr o’r bands sy’ wedi dod cyn ni fel Ail Symudiad, Jess a Dom i enwi rhai” pwysleisia Mefin.

“Ond mewn oes ble ma lot o bobl yn edrych i’r

gorffennol, ni'n credu bod hi hefyd yn bwysig i edrych 'mlân beth sydd i ddod.

"Ma'r ardal yn byrlymu gyda lleisiau newydd ffresh ar y foment a ni'n edrych 'mlân at ein prosiectau nesaf yn barod."

Teg dweud mai Lafant sy'n arwain y don newydd fresh yma o artistiaid lleol sydd dan adain Fflach Cymunedol, ac mae Mefin yn cytuno bod atgyfodiad y label yn ddatblygiad pwysig iawn.

"Dwi meddwl bo Fflach wastod wedi bod yn label sy'n cynnig rhywbeth gwahanol i'r sîn dros y pedwardeg mlynedd d'wethaf, yn cynnig ongl arall ar cerddoriaeth Gymraeg falle.

"Sai'n meddwl bo fi'n gor-ddweud os weda'i fydde ddim Lafant yn bodoli rhagor heb Fflach. Ma' nhw wir yn dod a'n gweledigaethau artistig yn fyw. Pethe bach fel neud yn siŵr bod ni'n cyd-weithio gyda'r bobl cywir, cynhyrchwyr, ffotograffwyr, darlunwyr ac ati.

"Dyma'r bobl sy'n troi eich cerddoriaeth chi mewn i ddarn o gelf."

Difyr bod y geiriau yma - "fydde ddim Lafant yn bodoli rhagor heb Fflach" - yn adleisio bron yn union eiriau'r band Dewin mewn rhan arall o'r rhifyn yma. Mae 'na thema glir yn dod i'r amlwg, ynghyd â gwerth cael label recordio sydd â phwyslais ar y gymuned leol.

Wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld â Llantwd, sydd ar stepen drws y band, nid yw'r syndod bod cyfleoedd i weld Lafant yn perfformio ar Lwyfan y Maes, Caffi Maes B a Maes B yn ystod yr wythnos. Ond, debyg mai ychydig fyddai wedi sylwi bod y ffryntman hefyd yn mynd i fod yn perfformio ar lwyfan Y Pafiliwn fel y cymeriad Morys yn sioe 'Sefyll ar y Sgwâr' sy'n ddathliad o waddol Ail Symudiad.

"Cywir, dwi wedi rhoi'r Mefin Hughes arall allan o waith" meddai a thafod yn ei foch cyn mynd ymhelaethu ar y profiad.


"Yeah, mae'n brofiad gwych hyd yn hyn. Fel rhywun sy' ddim wedi neud lot yn y byd actio o'n i ddim *really yn* siŵr be i ddisgwyl, ond mae wedi bod yn hyfryd.

"Mae gweddill y cast wedi bod yn gefnogol iawn a rwy'n teimlo fy mod wedi dysgu lot gyda nhw'n barod.

"Dwi wedi cwrdd ag artist o Lundain o'r enw Betsan Lees sy' hefyd yn actio am y tro cyntaf yn y sioe, ac yn chware Maes B a Llwyfan y Maes, *so* o leiaf bo'r ddau ohono ni yn yr un cwch.

"Nai gymryd unrhyw esgus i chware gitâr ar lwyfan mawr ac mae'r stori hon yn un sbeshal, ac wrth gwrs yn llawn caneuon hyfryd. Un i'r teulu cyfan weden i, a fel ma'r sais yn gweud "*there won't be a dry eye in the house*".





*Mae'r albwm 'Segurdod' gan Lafant allan nawr ar label Fflach Cymunedol. Gallwch hefyd ganfod y trac gwych 'Sdim Mwg Heb Dân' gan y band ar record feinyl aml-gyfrannog 'Selar3', sydd ar gael i aelodau Clwb Selar (manylion ar selar.cymru), mewn rhai digwyddiadau dethol, ac yng Nghaffi Maes B yr Eisteddfod.*

**Lluniau: Ceirios Bebb**

**Mwsog ydy'r prosiect gwerin newydd sydd wedi bod yn weithgar iawn dros y misoedd diwethaf ac fe gafodd Lois Gwenllian gyfle i deithio i'r Almaen gyda nhw'n ddiweddar....**

# MWSOG YN HUDO'R ALMAEN

Bu'n gorwynt o ddeuddydd yn teithio o Gaerdydd i Rudolstadt yn yr Almaen i weithio gyda'r band gwerin Mwsog ddechrau mis Gorffennaf. Do'n i ddim yn gwybod rhyw lawer am y band cymharol newydd hwn – ro'n i'n gyfarwydd â cherddoriaeth Mari Mathias ac wedi gweld band Joe y gitarydd, Dactyl Terra, ar amryw achlysur yng Nghlwb Ifor Bach. Felly cyrhaeddais y cyfandir 'mond wedi clywed cwpl o ganeuon ar y gwasanaethau ffrydio.

Gorwelion oedd wedi gofyn i mi fynd wedi i'r EBU (European Broadcasting Union) wahodd Mwsog i gynrychioli Cymru yng ngŵyl cerddoriaeth werin fwyaf Ewrop. Gyda nawdd gan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru llwyddodd y band i ddod at ei gilydd i hedleinio llwyfan y parc ar nos Sadwrn yr ŵyl.

Cyn y gig treuliais awr yn gwylio'r band, sydd ddim yn dod at ei gilydd i ymarfer yn aml – mae saith aelod yn y band – yn ymarfer. Yn ystod y chwe deg munud yna, beth ddaeth i'r amlwg i mi oedd bod y gerddoriaeth maen nhw'n ei chwarae yn llifo allan ohonyn nhw'n naturiol. Roedd syniadau'n cael eu taflu, trefn caneuon yn newid, solos newydd yn cael eu hychwanegu. Yn eistedd mewn cae tu cefn i'r gwesty roedden ni'n aros ynddi yn nhref Saalfeld fe drodd beth oedd yn edrych fel jamio mewn i set dynn awr ac ugain munud fyddai'n cael ei pherfformio ar lwyfan enfawr ychydig oriau'n ddiweddarach.

Pan fydd bandiau yn gwisgo fel mae Mwsog yn gwisgo, ac yn perfformio cerddoriaeth werin, ac yn cario penglog ceffyl ar y llwyfan ac yn defnyddio esgyrn fel offerynnau taro mae perygl i'r holl beth deimlo fel ffars gyntefig sy'n cynrychioli'r Cymry yn union fel hynny, cyntefig neu fel cenedl sy'n gafael yn dynn ar draddodiad hurt yn y gobaith o ymddangos yn "ddiddorol."

Ond, nid felly mo Mwsog! Ges i fy synnu sut y daeth yr holl berfformiad yn fyw unwaith y cafodd y gitârs eu plwgio mewn i'r system sain! Mae eu perfformiad byw yn pwyso'n drwm mewn i draddodiadau Cymreig fel y Fari Lwyd, natur, paganiaeth ac yn llawn naws gwrachaidd. Mae'n atmorfferig, yn dywyll, yn orfoleddus, yn egnïol. Nid o reidrwydd yr ansoddeiriau fyddech chi'n meddwl amdanynt wrth glywed 'Hen Ferchetan' yn cael ei chanu. Ond mae hefyd yn teimlo'n newydd, yn angerddol ac yn wallgof. Llwyddodd y band i oglais diddordeb y dorf o bron i ddeng mil yn yr hyn oedd wedi ysbrydoli perfformiad o'r fath.

Bydd rhaglen am y trip a pherfformiadau byw o'r ŵyl ar gael ar BBC Radio Wales yn hwyrach yn y flwyddyn.










# DIM AMSER

## - ail-ddychmygu albwm eiconig Ail Symudiad




Siawns nad oedd llawer o bobl prysurach ym mis Gorffennaf 2026 na Nico Dafydd. Ag yntau'n gyfarwyddwr ffilm sy'n dod yn wreiddiol o'r ardal mae'n un o sgriptwyr sioe fawreddog 'Sefyll ar y Sgwâr' oedd yn agor gweithgarwch nos Pafiliwn Eisteddfod y Garreg Las eleni. Mae'r sioe wedi'i ysbrydoli gan gerddoriaeth y band eiconig o Aberteifi, Ail Symudiad.

Ef hefyd oedd y prif egni tu ôl i'r ymdrechion i godi arian tuag at sefydlu label Fflach Cymunedol, a dyfodd o waddol label Fflach, a sefydlwyd gan y brodyr Richard a Wyn Jones o Ail Symudiad. Nico ydy rheolwr y label sy'n prysur ddod yn un o'r mwyaf bywiog o labeli Cymru, yn arbennig wrth lansio gyrfaoedd artistiaid ifanc o'r Gorllewin.

Teg dweud felly mae'n siŵr bod Ail Symudiad a Fflach yn agos at galon Nico, ac os nad oedd eisoes yn ddigon prysur yn ystod y cyfnod yn arwain at yr Eisteddfod, roedd hefyd yn gweithio'n dawel bach ar record aml-gyfrannog uchelgeisiol sy'n ail-ddychmygu albwm enwocaf Ail Symudiad, sef 'Sefyll ar y Sgwâr'.

Rhywsut, yng nghanol yr holl brysurdeb, llwyddodd y deinamo yma o greadigrwydd i ganfod amser yn ei ddyddiadur gorlawn i gael sgwrs fach gyda'r **Selar** am y record newydd.


Wrth sgwrsio, daw'n amlwg yn fuan iawn bod y fersiwn gwreiddiol o 'Sefyll ar y Sgwâr' wedi bod yn ddylanwad mawr ar fywyd Nico.

"Ers dechrau gweithio gyda Fflach roedd hwn yn rhywbeth ro'n i eisiau gwneud. I fi hwn yw'r albwm Cymraeg" meddai.









“Dyma’r albwm — o’i glywed yn ei gyfanrwydd ar feinyl gan Dad yn 16 mlwydd oed — wnaeth droi fi ‘mlaen i gerddoriaeth Gymraeg go iawn.

“Mae’n rhyw fath o *year zero* yn y sîn. Albwm bop, accessible, oedd yn bwrpasol troi cefn ar stwnsh theatrig y ’70au.

“Dangosodd bod cerddoriaeth Gymraeg yn gallu dod o’r dosbarth gweithiol, nid yn unig o goridorau prifysgolion. Ac mae wedi ei gyfansoddi gyda llais ac agwedd y de orllewin. Mae’n llawn hiwmor, barn gref am ddigwyddiadau’r byd, ac ysbryd hollol annibynnol.


“Mae ambell i gân bop berffaith yna, gwir ganeuon eiconig fel ‘Symud Trwy’r Haf’ a ‘Cymry Am Ddiwrnod’ - dwy sydd yn barod wedi ffeindio ail fywyd diolch i’r fersiynnau newydd yma.


“Mae’r gwaith celf hefyd yn help. Mae rhywfodd wedi ffeindio’i ffordd mewn i isymwybod diwylliannol Cymru. Os ti ddim yn gwybod llawer am y band, am hanes gerddoriaeth ayyb, ti’n siŵr o fod wedi gweld y clawr, a chlywed un neu ddwy o’r caneuon. Ond mae’r holl beth yn gampwaith, yn clymu cyfnod really cynnar punky Ail Symudiad, a’r stwff mwy melodiadd wnaeth ddilyn, i gyd gyda’i gilydd.

“Rhaid cofio mai rhyw bedair blynedd mewn gwirionedd fodolodd Ail Symudiad, y band gwreiddiol. Fe ail-ffurfion nhw fel Symudiad, ac wedyn rhyddhau mwy tua diwedd yr 80au a dechrau’r 90au cyn cymryd hoe hir arall. Ond hwn oedd yr Ail Symudiad ‘gwreiddiol’ mewn ffordd.

“Mae’n helpu falle mai un print byr o’r albwm yma ar vinyl fuodd, a bod hwnnw wedi gwerthu allan. Dyw’r albwm erioed wedi ei rhyddhau yn ddigidol nac ar CD, er, roedd print casét bach hefyd.


“Hwn hefyd wrth gwrs oedd albwm cyntaf Fflach. Felly mae’n hollbwysig yn hanes y label hefyd. Roedd ei hail-ddychmygu yn teimlo fel ffordd o ddweud cam nesaf hanes yr albwm, gan ei gysylltu gyda’r cyffro dwi’n teimlo o gwmpas cerddoriaeth Gymraeg ar hyn o bryd.”










## AMRYWIAETH YR ARTISTIAID

Hyd yma mae Fflach Cymunedol wedi canolbwyntio ar gynnig llwyfan i artistiaid ifanc, ac mae rhai o’r rhain wedi cyfrannu fersiynau newydd o ganeuon Ail Symudiad i’r casgliad newydd – Lafant a Dewin yn benodol.

Ond mae yma hefyd gyfraniadau gan artistiaid sefydledig, sydd ddim yn rhyddhau eu cerddoriaeth ar Fflach Cymunedol – Gwenno, HMS Morris, Breichiau Hir, Rogue Jones a Pys Melyn yn enwau sy’n neidio o’r rhestr.

Yn ôl Nico, roedden nhw’n awyddus i gynnwys amrywiaeth eang o artistiaid ar y record.

“[Mi wnaethon ni] Edrych o gwmpas rili ar y bandiau ac artistiaid mwyaf cyffrous sydd allan ’na.

“Mae’r amrywiaeth yn eang gan mai dim ond eisiau’r gorau o’n i — cerddorion fyddai’n gallu troi cân adnabyddus mewn steil benodol yn rhywbeth newydd, oedd yn perthyn iddyn nhw. Fe grëon ni wishlist gan feddwl pwy fydde’n gweddu pa ganeuon, ac mae’r albwm gorffenedig yn eitha’ agos ati.”

Mae ’na 13 o draciau ar yr albwm, a phob un gan artist gwahanol. Ar ôl cyhoeddi tair record feinyl aml-gyfrannog ein hunain, mae’r **Selar** yn ymwybodol iawn o’r logisteg sydd ynghlwm â phrosiect o’r fath! Wedi dweud hynny, mae datblygiadau mewn technegau recordio wedi’i gwneud hi’n dipyn haws i artistiaid recordio erbyn hyn, lle yn nyddiau’r albwm gwreiddiol byddai’n rhaid i bawb ymweld â stiwdio Fflach.

“Cafodd pob artist rhyddid llwyr i fynd i ffwrdd i greu’r trac” eglura Nico wrth drafod y broses recordio.

“Buo ni’n pendroni am wahodd pawb i’r stiwdio á la Beautiful Mistake [ffilm ddogfen Marc Evans o 2000] ond doedd e ddim yn teimlo’n deg i bawb fod yn newid eu ffyrdd o recordio, heb sôn am y logistics o drio gwneud hynna.

“Unwaith iddyn nhw dderbyn y trac a’r geiriau gafon



HMS MORRIS



LAFANT



LLEUCU NON

nhw fynd i ffwrdd i ail-ddychmygu ac i recordio. Cafodd Iwan Morgan y dasg wedyn o fastro popeth gan dderbyn — yn amyneddgar — unrhyw nodiadau wrth y bandiau.

## SIOE LWYFAN SEFYLL AR Y SGWÂR

Ag yntau'n â chymaint o feddwl o'r albwm gwreiddiol ac o Ail Symudiad yn gyffredinol, all rhywun ond dychmygu'r balchder fyddai Nico'n ei deimlo wrth dderbyn y cyfrifoldeb o chwarae rhan allweddol yn sioe Sefyll ar y Sgwâr yr Eisteddfod. Ond law yn llaw â chyfrifoldeb, daw wastad rhywfaint o bwysau hefyd...

"Dwi'n falch iawn o Sefyll ar y Sgwâr. O'n i'n poeni sut fydde gwahaniaethu'r holl bethau 'ma yn fy mhen, a'r pwysau bydde cymryd ymlaen cymaint o waith Ail Symudiad-aidd yn ei gael arna i" cyfaddefa.

"Ond dwi'n meddwl bod fi a Mari Elen [y sgriptiwr arall] wedi llwyddo i ddweud stori sy'n perthyn i'r ardal tu hwnt i just Richard a Wyn yn y sioe. Mae triniaeth y caneuon, yr arddull, cyfnod y sioe, i gyd yn golygu bod y caneuon wedi cael gwynt newydd.

"Mae Mef [Mefin Hughes, Lafant] wedi gwneud job anhygoel yn chwarae'r prif ran, a'r cast o'i gwmpas i gyd yn wych, ac mor barod i rannu straeon am eu perthynas nhw gydag Ail Symudiad, Richard a Wyn, a'r ardal.

"Falle y peth anodda i'w wneud yw creu gwaith creadigol ar gyfer eich pobl chi. Roedd cyflwyno'r stori i'r pwyllgorau gwaith yn stressful, a siarad o flaen y côr yn yr ymarfer cyntaf yn teimlo fel *make or break* ar y pryd. Ond y côr sy'n gwneud y sioe yma, a'u cariad a'u cysylltiad emosiynol nhw tuag at y caneuon, a thrwy hynny, at Rich a Wyn, yn hollol amlwg ar eu hwynebau. Dwi'n ffodus iawn i fod wedi cael y cyfle i fod yn rhan o'r sioe."

## PLYGU AMSER

Yn gerddorol ac yn ddiwylliannol, mae rhywbeth unigryw iawn am ardal Aberteifi a Gogledd Sir Benfro – bro y Garreg Las fel ei gelwir at bwrpas ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol. Anodd rhoi bys yn union ar hyn, ond os oes unrhyw un all gynnig diffiniad, yna Nico Dafydd ydy hwnnw.

"Mae amser yn plygu wrth groesi dros y Teifi, ac mae Cowbois Crymych yn dal i hela'r twrch trwyth' fel dywed Gareth Iona yn ei gân ar gyfer y sioe 'Gan Bwyll' Eisteddfod yr Urdd 1995" meddai Nico cyn ymhelaethu.

"Mae'n rhan o'n diwylliant a'n hunaniaeth ni, dwi'n meddwl ein bod ni ar wahân. Ni'n blwyfol wrth gwrs, ond



LOS BLANCOS




MARTHA ELEN



TAI HAF HEB DRIGOLYN



## “Mae ambell i gân bop berffaith yna, gwir ganeuon eiconig....”







mae rhyw deimlad yma bod ni ar gyrion Cymru, ymhell oddi wrth ganolfannau Cymreig eraill a dinasoedd mawr Cymru.

“Mae’r ysbryd annibynnol ‘na i’w weld yn ein cerddi - ‘Mur fy mebyd’, ‘Foel Drigarn’, ‘Carn Gyfrwy’, ‘Tal Mynydd’, ‘Preseli’, Waldo - yn y nifer eang o fusnesau bach llwyddiannus sydd yn yr ardal, a’r arferiad mwy modern o bryniant cymunedol i bob math o bethau, o gapeli, i siopau, i dafarndai, ac i labeli recordiau!

“Dyna sylfaen y peth dwi’n meddwl. Tafla mewn i hwnna ddylanwadau fel y llu o artistiaid gweledol sy’n yr ardal, arferiad cerddorfaol de Sir Benfro, y symudiad amgen o’r 60au hyd yma, a’r elfen Gymreig gref, ac mae gyda ti le diddorol iawn i weithio ohono.

“Dwi yn sicr yn teimlo bod wastad elfen o ‘gawn ni ddangos i bawb arall beth ni’n gallu gwneud’ yn perthyn i’r lle, sy’n rhoi rhyw dân a phenderfyniad ym moliau pobl yr ardal.”

Os oedd dau oedd yn crynhoi’r ysbryd ‘gawn ni ddangos i bawb arall’ yma, yna Richard a Wyn Fflach oedd rheiny. Mae’n briodol felly mai nhw sy’n cael y gair olaf – wedi’r cyfan, dathliad o’u cyfraniad a dylanwad ydy’r albwm newydd a’r sioe lwyfan yn y Steddfod.

“Mae eu cyfraniad nhw yn ddiwylliannol, yn uniongyrchol ac yn bersonol wedi bod yn anferth” ydy barn Nico.


“Mae lot ohonon ni sy’n gweitho mewn cerddoriaeth yn y de orllewin wedi cael ein cyfleoedd cyntaf oherwydd Fflach. Mae hynny’n mynd nôl mor bell a bandiau cynnar yr 80au, trwy Jess, Dom, Mattoidz, Swci, Lowri Evans a mwy.

“Ond ar lefel bersonol roedd y ddau mor arbennig o falch o fod yn dod o Aberteifi, mor barod eu cymwynas i bawb, boed yn helpu bandiau ifanc, yn chwarae mewn cyngherddau cymunedol, neu jyst mewn sgwrs mewn caffi. Pobl *really* ffeind yn llawn hiwmor.

“Dwi’n trwytho bandiau ifanc Fflach Cymunedol yn yr agwedd gynnar DIY yna. Mae’n bwysig bod nhw i gyd yn sylweddoli pam bod nhw’n dal i gael y cyfle nawr i greu cerddoriaeth. A dwi’n meddwl bod y ffaith bod Fflach Cymunedol yn bodoli yn dyst byw i gariad pobl at Rich a Wyn.

“Ti hefyd yn amlwg yn cofio’r bobl. Dwi’n lwcus i fod wedi adnabod y ddau erioed. Ac mae atogfion melys iawn gyda fi ohonyn nhw fel plentyn yn llawn hwyl a sbri, a bod â rhyw fath o edmygedd cynnar o weld y ddau foi ‘ma o’n i’n nabod yn canu o flaen pobl oedd yn gallu canu’r geiriau yn ôl. Ond mae gen i hefyd deimlad o fraint o fod wedi bod yn ffrind i’r ddau fel oedolyn.”

A dyna’r crynodeb perffaith o bwysigrwydd cofio, a dathlu cyfraniad Ail Symudiad a Fflach, a’r ddau gymeriad tu hwnt o hoffus oedd yn ganolbwynt iddynt. Bydd wastad amser i Sefyll ar y Sgwâr.



Cafodd cyfranwr rheolaidd Y Selar, **Angharad Rhiannon**, ei gwahodd i fod yn feirniad yng nghystadleuaeth Brwydr y Bandiau, Eisteddfod Pontypridd ddechrau Gorffennaf. Dyma gyfle perffaith felly i ofyn iddi baratoi adroddiad bach o'i phrofiad ar y noson, ynghyd ag eitem 'Newydd ar y Sin' estynedig gyda'r bandiau fu'n cystadlu.

# BRWYDR Y BANDIAU 2026 – EISTEDDFOD PONTYPRIDD

Roedd awyrgylch Clwb y Bont ym Mhontypridd yn llawn egni a chyffro wrth i Frwydr y Bandiau gael ei chynnal fel rhan o Eisteddfod Pontypridd eleni. Cefais y fraint o fod yn feirniad i'r gystadleuaeth, ac roedd yn bleser mawr cael clywed cymaint o dalent ifanc Cymreig yn perfformio.

Hyd yn oed wrth wrando ar y *soundchecks* roedd yn amlwg fod safon y gystadleuaeth yn eithriadol o uchel. Daeth pob artist a band â rhywbeth unigryw i'r llwyfan, gyda pherfformiadau hyderus, caneuon gwreiddiol cryf a brwdfrydedd heintus. Roedd y penderfyniad terfynol yn un anodd iawn.

Y cyntaf i berfformio oedd Rhyddid, band o Bontypridd a ffurfiwyd drwy brosiect RIFF Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Mae Branwen, Anya, Mari ac Elis, sydd yn ddisgyblion Ysgol Garth Olwg, wedi bod yn perfformio gyda'i gilydd ers dwy flynedd a hanner. Fe wnaethon nhw gyflwyno tair cân wreiddiol – 'Paid Gadael Fi', 'Opsiwn Gwell' a 'Fy Stori'. Cafodd pob offeryn gyfle i ddisgleirio yn ystod y set a phob un yn cymryd y cyfle i ddangos eu doniau cerddorol. Mwynheais yn arbennig y harmonïau hyfryd a'r ffordd roedd y caneuon yn adeiladu. Roedd trefniant y caneuon yn ddiddorol, ac roedd pob aelod o'r band i'w gweld yn cefnogi ei gilydd.

Yn cystadlu fel artist unigol oedd Lucy Jenkins o'r Bont-faen, a gyflwynodd dair cân wreiddiol: 'Bywyd Gwyllt', 'Mynd yn Hen' a 'Pwysau Cyfoedion'. Roedd yn amlwg o'i pherfformiad a geiriau ei chaneuon nad oedd Lucy yn trio bod fel neb arall. Roedd ei geiriau gonest a'i gallu i adrodd straeon drwy ei chaneuon yn creu cysylltiad cryf â'r gynulleidfa. Er mai dim ond ers ychydig flynyddoedd mae Lucy wedi bod yn gigio'n gyhoeddus, roedd ei pherfformiad yn llawn hyder ac emosiwn.

Band olaf y dydd oedd Alys a'r Tri Gŵr Noeth o Sir Gaerfyrddin. Roedd Gwyn, Osian ac Iago yn perfformio gyda'i gilydd ers 2023 fel Y Tri Gŵr Noeth, cyn i Alys ymuno â'r band, ac felly y ganwyd yr enw Alys a'r Tri Gŵr Noeth. Roedd eu perfformiad yn hyderus ac yn fywiog, ac yn sicr o ddal sylw'r gynulleidfa. Roedd eu set yn cynnwys y caneuon gwreiddiol 'Rhy Hir' a 'Methu Anwybyddu', ynghyd â fersiwn o '11' gan Kentucky AFC. Roedd eu sain yn ffres ac yn llawn egni... yn sicr yn fand 'dych chi methu anwybyddu!

Y band a gipiodd y wobr eleni oedd Lanstâr, grŵp o chwe cherddor ifanc o Bontypridd. Mae Awen, Oli, Dan, Harri, Elis a Jack wedi bod yn perfformio gyda'i gilydd ers dwy flynedd, wedi iddynt gyfarfod drwy weithdy cerddoriaeth yn yr ysgol. Yn ystod y gystadleuaeth fe berfformion nhw'r caneuon gwreiddiol 'Y Pris' a 'Pwy Wyt Ti?', ynghyd â fersiwn o 'Hapus' gan Topper.

Yr hyn oedd yn drawiadol am Lanstâr oedd eu cemeg fel band, eu trefniant cerddorol a'r ffordd roedd pob aelod yn cyfrannu at y perfformiad. Mae'r band yn cydweithio wrth gyfansoddi, gyda geiriau gan Awen ac Oli a'r gerddoriaeth yn cael ei datblygu gan y grŵp cyfan. Gyda chwe aelod yn y band, byddai'n hawdd i'r sain fynd yn flêr, ond roedd y cyfan yn dynn ac yn daclus. Llywion nhw'r newidiadau amser yn ystod y caneuon yn rhagorol. Roedd hefyd yn galonogol clywed eu bod wedi cystadlu'r llynedd a gorffen yn drydydd, cyn dychwelyd eleni i ennill y gystadleuaeth.

Fel enillwyr Brwydr y Bandiau, bydd Lanstâr yn cael y cyfle i ymddangos ar fy rhaglen radio i, Y Sioe Gymraeg ar GTFM, cefnogi Dadleoli mewn gig yng Nghlwb y Bont, a recordio cân mewn stiwdio broffesiynol. Mae'n gyfle gwych, ac mae'n siŵr y bydd yn gam pwysig ymlaen yn eu taith gerddorol.

Roedd hi'n fraint cael beirniadu'r Brwydr y Bandiau eleni ac yn anrhydedd i fod yno ar ddechrau teithiau cerddorol y bandiau yma. Roedd yn galonogol gweld cymaint o artistiaid yn cyfansoddi caneuon gwreiddiol, yn perfformio gyda hyder ac yn rhannu eu creadigrwydd gyda ni a hoffwn ddiolch i bob un am ei perfformiadau.

Llongyfarchiadau enfawr i Lanstâr ar eu buddugoliaeth, ac i bob un o'r artistiaid a gymerodd ran. Dwi methu aros i glywed beth fydd y cam nesaf i'r artistiaid talentog hyn.




## RHYDDID

**Aelodau:** Branwen, Anya, Mari, Elis
**Oedran:** Pawb yn 17 oed
**Dylanwadau cerddorol:**
Cafon ni ein dylanwadu arnom gan fandiau pop/roc, yn ogystal ag amrywiaeth o fandiau ac artistiaid Cymraeg fel Mei Gwynedd ac Eädyth - pobl gafodd rôl enfawr wrth i ni ffurfio'r band. Yn gyffredinol, mae bandiau fel y Beatles hefyd wedi ein hysbrydoli gan ein bod yn gwneud fersiwn o un o'u caneuon.
**Uchelgais cerddorol:**
Rhyddhau ein caneuon er mwyn i bobl allu'n clywed ni ar draws y wlad ac ar y radio, a hefyd cael chwarae yn Maes B a Steddfod!



## LUCY JENKINS

**Oedran:** 25
**Dylanwadau cerddorol:**
O ran sain, cerddoriaeth *punk* o'r 90au a'r 00au sydd wastad wedi bod y mwyaf [o ddylanwad] i fi. Fi'n caru cerddoriaeth swnllyd ac egnïol ac yn eitha *nerdy* am y fath yna o gerddoriaeth. Fi'n cymryd lot o ddylanwad o'r addysg gerddorol ges i'n tyfu lan hefyd wrth gyfansoddi. Y ddylanwad mawr arall yw cerddoriaeth werin achos y defnydd o eirfa yn y caneuon traddodiadol, ac eto, achos bod gymaint o egni yn yr alawon.
**Uchelgais cerddorol:**
Bod pobl yn mwynhau be fi'n 'neud a bod y bobl sy 'di cal profiadau tebyg i fi yn teimlo bod rhywun yn deall.



## ALYS A'R TRI GŴR NOETH

**Aelodau:** Gwyn, Iago, Osian, Alys
**Oedran:** 15-17
**Dylanwadau cerddorol:**
Rhai o'n dylanwadau ni fel band yw Dros Dro, sydd wedi bod yn gefnogaeth mawr i ni fel band, Lewys, Queens of the Stone Age ac yr Arctic Monkeys.
**Uchelgais cerddorol:**
Ni'n cymryd pethau'n eitha "*chill*" fel band ar y funud achos ma pawb di bod yn reit brysur gydag arholiadau, ond ni'n gobeithio recordio ambell gân cyn bo hir a neud mwy o gigs yn lleol ac yn bellach bant.

**"GYDA CHWE AELOD YN Y BAND, BYDDAI'N HAWDD I'R SAIN FYND YN FLÊR, OND ROEDD Y CYFAN YN DYNN AC YN DACLUS"**



## LANSTÂR

**Aelodau:** Awen, Oli, Dan, Harri, Elis a Jack.
**Oedran:** Pawb yn 17 oed
**Dylanwadau cerddorol:**
Mae ein dylanwadau cerddorol yn hollol wahanol i'n gilydd! Er, mae'r Beatles, Super Furries a Topper yn ffefrynnau.
**Uchelgais cerddorol:**
Ein uchelgais cerddorol yw i whare ym Maes B! Yn ogystal, hoffem ryddhau ein cerddoriaeth wedi recordio.
Mae ennill Brwydyr y Bandiau yn golygu cymaint i ni, ac yn galluogi i ni gymryd cam ymlaen fel band a dechrau recordio ein caneuon ac ymddangos ar y radio ac yn Y Selar! Mae'n fraint i greu cerddoriaeth Cymraeg ac i berfformio yn fyw o flaen cynulleidfa mewn digwyddiadau gwahanol!

**"DAETH POB ARTIST A BAND Â RHYWBETH UNIGRYW I'R LLWYFAN, GYDA PHERFFORMIADAU HYDERUS, CANEUON GWREIDDIOL CRYF A BRWDFRYDEDD HEINTUS."**





# Dewin

**Er bod llawer o artistiaid ifanc cyffrous wedi ymddangos dros y blynddoedd diwethaf, go brin bod un arall sydd mor lliwgar a...wel, gwallgof, â Dewin. Ers ennill gwobr Richard a Wyn yng Ngwobrau Coffa Ail Symudiad 2025, a pherfformio yng Ngwobrau'r Selar fel rhan o'r wobr yn fuan wedyn, maent wedi mynd o nerth i nerth dan adain Fflach Cymunedol. A hwythau newydd ryddhau ei halbwm cyntaf, roedd yn gyfle perffaith i'r Selar holi am Sgwrs Sydyn.**

**Bydd rhai o ddarllenwyr Y Selar wedi dod ar draws Dewin, ond i'r rhai sydd heb, pwy ydych chi ac o ble ydych chi'n dod?**
Ry'n ni yn fand o ddewiniaid ifanc o Sir Benfro. Craidd y band yw Jencyn Corp o Faenclochog, a Lefi Dafydd o Eglwyswrw. Ac wrth gwrs, mae ein cerddoriaeth aml-haenog yn galw nifer o gerddorion dewinaidd i'n helpu hefyd – pobl fel Mefin Hughes (Lafant), Bryn Richards a nifer o bobl eraill sydd wedi ateb y galw.

**Pan ddaethoch chi i'r amlwg gyntaf, roeddech chi'n disgrifio cerddoriaeth Dewin fel 'wizard pop'. Beth mae hynny'n ei olygu?**
Gyda'n cerddoriaeth mor anodd ei ffitio mewn i unrhyw genre oedd yn bodoli'n barod, roedd rhaid arloesi. Fel dewiniaid, pa label gwell sydd eisiau na 'wizard pop'?



**Mi wnaethoch chi ryddhau eich albwm cyntaf, 'Dan y Dderwen', ddechrau mis Mai. Sut fyddech chi'n crynhoi'r record a'r hyn gall gwrandawyr ddisgwyl?**
Taith gerddorol aml-offerynnol drwy ddychymyg y Dewin – does dim un cân fel y llall, ond eto mae hapusrwydd a hiraeth ac offeryniaeth unigryw y band yn eu clymu ynghyd. Record cysyniadol yw hi i raddau, gan ein bod ni fel dewiniaid yn chwilio am ein lle yn y byd lle gallwn ni fyw mewn harmoni. Ond mae hefyd yn cyflwyno ein cerddoriaeth a'n syniadau i'r byd am y tro cyntaf mewn ffordd cyffrous.

**Roedd yr albwm yn 'wahoddiad i fyd Dewin' - sut le ydy'r byd hwnnw?**
Mae'n fyd sy'n rhychwantu'r bydoedd – mae'n ein cymryd drwy fyd arall, hudolus y dewiniaid ar yr un pryd ag edrych ar ein byd ni a'r problemau sydd i'w canfod ynddo fel newid hinsawdd, er enghraifft. Gall byd Dewin eich cymryd i unrhywle, via Dewin Airways – i'r anialwch poetha ('Cactws'), i ganol y dail lili ('Broga'), a gobeithio i'r Dderwen fawr hudolus sy'n estyn canghennau droston ni i gyd ('Ubeyo').

**Oes ganddoch chi hoff gân ar yr albwm? Pa gân ydy'r fwyaf poblogaidd mewn gigs?**
Y gân ry'n ni ein dau yn mwynhau ei chwarae'n fyw fwyaf yw 'Dau Sydd yn y Llun' – ein cân hiraf ni yw hi o bell ffordd, ac mae hi'n cynnwys cymaint; yn dechrau bant yn dawel a swynol cyn tyfu mewn i sain anferth epig ac wedyn cwympo nôl lawr eto yn fregus. Ac mae'n gân mor emosiynol hefyd. Ond yn bendant y gân mae pobl yn joio mewn gigs yn fwy na dim yw 'Syched Cas', gyda llawer yn canu, hyd yn oed os nad oes ganddynt unrhyw Gymraeg!

**Bu i chi ffrwydro i amlygrwydd wrth gipio gwobr Richard a Wyn Ail Symudiad, ac rydych chi wedi ymuno â label Fflach Cymunedol. Pa mor bwysig i chi ydy'r cysylltiad yna gyda hanes a chymuned gerddorol yr ardal?**
Yn bendant, heb fodolaeth Fflach Cymunedol a'i harweiniad newydd, ffres dan Nico Dafydd, byddai Dewin ddim yn bodoli. Ry'n ni wedi cael y cyfle i allbynnu y gerddoriaeth oedd gynt yn gaeth yn ein pennau ond a gafodd gyfle i hedfan yn rhydd, diolch i gefnogaeth a brwdfrydedd Fflach Cymunedol. Ac wrth gwrs, sefydlwyd gwobr Richard a Wyn er cof am y ddau ddyn hynod a ffurfiodd Fflach yn wreiddiol yn 1981, felly mae eu gwaddol nhw yn y gymuned yn Aberteifi a Gogledd Sir Benfro yn parhau i godi ac i ysbrydoli y to iau i weithredu.

**Pa fath o gerddoriaeth ac artistiaid sydd wedi dylanwadu arno chi fel cerddorion a band?**
Mae nifer o fandiau Cymraeg hynod, amrywiol ac unigryw wedi bod o amgylch yn ddiweddar fel HMS Morris a Carwyn Ellis + Rio 18, a rhain wnaeth ddangos i ni bod creu cerddoriaeth yn y Gymraeg yn gallu bod yn gyffrous. Ond mae pob math o gerddoriaeth wedi ysbrydoli pawb yn Dewin mewn gwirionedd; gymaint nes nad yw'n bosib rhoi bys ar beth yn union sydd wedi ysbrydoli unrhyw beth. Mae Supertramp, Pys Melyn ac Oracle Sisters yn fandiau sydd efallai wedi ysbrydoli ein cyfansoddi, tra bod gweld Melin Melyn ac Elfed Saunders Jones yn fyw wedi ein hysbrydoli i fod yn fwy theatrig ac ecsentrig yn ein sioeau byw.

**Mae'r Eisteddfod Genedlaethol ar eich stepen drws eleni - pa mor arwyddocaol ydy hynny i chi fel band ac oedd hyn yn ffactor wrth ryddhau'r albwm cyn y Steddfod? Ai hon fydd Steddfod Dewin?**
Ry'n ni wastad wedi bod eisiau chwarae yn yr Eisteddfod – drwy anlwc, dy'n ni heb gael y cyfle cyn nawr, ond gan fod yr Eisteddfod ar ein stepen drws ry'n ni yn fwy brwdfrydig nac erioed. Bydd hon yn wythnos sbesial iawn i ni, dyw'r Eisteddfod ddim yn dod draw yn aml, a byddwn ni'n eithriadol o brysur gyda phump gig Dewin ar wahanol lwyfannau yn cynnwys Llwyfan y Maes, Caffi Maes B ar y nos Wener, a Maes B ar y nos Sadwrn, a gyda llawer o bethau eraill ry'n ni fel unigolion am eu gwneud ar wahanol lwyfannau. Bydd hi'n Steddfod a hanner!

**Beth sydd ar y gweill nesaf gan Dewin?**
Byddwn ni'n ymddangos ar albwm 'Dim Amser', sef ail-ddychmygiad o'r albwm eiconig 'Sefyll ar y Sgwâr' gan Ail Symudiad. Ffarwel Bwci Bo yw enw'r trac, a byddwn ni yn ei berfformio yn yr Eisteddfod gobeithio. Byddwn ni hefyd yn chwarae yng Ngŵyl Sŵn yng Nghaerdydd ar y 17eg o Hydref. Gobeithio bydd na fwy o gerddoriaeth i'w ganfod yng ngwaelod y grochan yn y misoedd i ddod… (he he he!)

## Cwestiynau cyflym

**Hoff fand neu artist o Sir Benfro?**
Gorky's Zygotic Mynci

**Hoff albwm cysyniadol?**
Mill on the Hill gan Melin Melyn, ac Y Dydd Olaf gan Gwenno


**Hoff ddewin?**
Llwyd ap Cilcoed, dewin pŵerus iawn o Sir Benfro yn y Mabinogi. Ond hefyd, mae ein *sponsors* eisiau i ni ddweud Bwba Bolfawr – CEO ar Dewin Airways. Ni fu dewin mwy trachwantus erioed yn hanes Annwn, ac ry'n ni yn parchu hynny.

**Disgrifiwch Dan y Dderwen mewn 5 gair…**
Eclectig, hapus, bonkers(ish), meddylgar, cactws.

# Lo-Fi Jones

*Geiriau: Nel Thomas*

**Band gwerin sy'n mynd o nerth i nerth dros y blynyddoedd diwethaf ydy Lo-Fi Jones. Cefais y fraint o sgwrsio efo'r brodyr Liam a Siôn Rickard o'r band gan drafod eu halbwm cyffrous 'Coming Sŵn' a ryddhawyd ym mis Mehefin eleni, a dysgu mwy am hanes y band.**



**Tarddiad y band**
I ddeall y band a'u cerddoriaeth, roedd rhaid dechrau o'r dechrau. Fel brodyr mae Liam a Siôn wedi bod yn creu cerddoriaeth gyda'i gilydd ers oes. Yn ôl Liam (llais a gitâr) bu iddo yntau a Siôn (llais, harmonica ac accordion) ffurfio band pan oeddent yn eu harddegau, fel ychydig o hwyl.

Wedi i'r ddau symud i Gaerdydd cafodd y prosiect ei ail-ffurfio a'i ddatblygu yn 2019, a'r cynlyniad oedd y band hoffus a chyfarwydd rydym yn ei adnabod heddiw - Lo-Fi Jones. Wedi i'r ddau symud i Fachynlleth yn y pen draw, daethant i gwrdd a Badger Brown (ffidil a bas) a Rolando Bertrand Ruiz (drymiau a bas). Ar ôl gwneud gigs gyda amrywiaeth o offerynnau yn y band penderfynwyd y dylai Rolando a Badger ymuno fel aelodau craidd.



**Sain aml genre**
Pan holais am sut oeddent yn disgrifio ei sain, roedd i'w weld mai dyma oedd y cwestiwn anodda iddynt ei ateb.

Mae eu halbwm newydd yn dystiolaeth o allu eang y band, a'r ffaith nad ydyn nhw'n cael eu cyfyngu i syniadau traddodiadol a disgwyledig genres penodol. Mae'r rhyddid yn eu caneuon yn iach, ac yn ffres, a felly mae'n anodd iawn eu disgrifio yn ôl un genre. Disgrifiodd Siôn eu gwaith fel, "indie-gwerin-pop", a roedd Liam yn eu disgrifio fel "gwerin-roc".

Yn amlwg mae sawl rheswm eu bod yn unigryw ac yn ffitio i sawl *genre* gwahanol. Pan ofynais am eu dylanwadau cerddorol, roedd eu catalog yn eang iawn, a byddem wedi medru sgwrsio drwy'r dydd am gerddoriaeth, artistiaid a phrofiadau gwahanol sydd yn eu hysbrydoli.

Rhai sydd siŵr o fod yn gyfarwydd i ddarllenwyr Y Selar oedd bandiau Cymraeg fel Cowbois Rhos Botwnnog, ac eu cyffyrddiadau gwerinol, ynghyd â Gwibdaith Hen Frân ac eu caneuon llawn hiwmor. Dywedodd Liam ei fod hefyd yn ffan mawr o'r sîn roc seicadelig yng Nghymru. Roeddent yn cael ysbrydoliaeth gan fandiau Saesneg hefyd gan gynnwys Pentangle,The Beatles a Fairport Convention.

Difyr oedd clywed eu bod yn cael llawer o syniadau gan sîn werin yr Alban yn ogystal. Mae eu blas mewn cerddoriaeth yn cyrraedd ffiniau y tu hwnt i Brydain wrth iddynt fwynhau cerddoriaeth megis Calypso, cerddoriaeth amgen o Ffrainc, a cherddoriaeth o Orllewin Affrica sydd wedi "treiddio mewn i'n cerddoriaeth" yn ôl Siôn.

Dywed bod eu profiadau hefyd wedi siapio eu sain wrth greu eu cerddoriaeth, megis Liam yn mynd i wirfoddoli yn Bolivia, gan ddychwelyd gydag ysbrydoliaeth newydd o ran rythmau a chordiau. Yn ôl Siôn, roedd profiadau y ddau mewn 'ethno camps', sef gwersylloedd gwerin rhyngwladol oedd yn caniatáu iddynt ddysgu am gerddoriaeth traddodiadol gwahanol wledydd, wedi eu hysbrydoli wrth gyfansoddi.

**Crefftio'r albwm**
Roeddwn yn awyddus i ddysgu am grefft yr albwm yma, a sut ddaeth y cyfan at ei gilydd fel cyfanrwydd. Wrth holi Siôn am y broses o gyfansoddi ac ysgrifennu, dywedodd nad yw'r broses yr un fath dwywaith, a bod eu cerddoriaeth fel arfer yn dechrau gyda syniad, neu strwythur o gân, a bod y band yn plethu syniadau eu hunain i mewn i'r caneuon.

Cafodd yr albwm 'Coming Sŵn' ei greu yn annibynnol, ac mae hyd yn oed y clawr wedi'i ddarlunio gan Liam ei hun. Mae'n gofnod o ganeuon maent wedi eu creu a pherfformio dros y blynyddoedd, ac yn ôl Liam mae'r caneuon wedi eu datblygu'n naturiol wedi llawer o ymarfer ar gyfer gigs, a threulio amser yn jamio gydag ei gilydd dros amser. Cafodd llawer o'r albwm ei recordio gyda'r cynhyrchydd Mike West, ac ambell gân megis 'Bydd Goleuni yn y Hwyr' wedi ei recordio a chynhyrchu gan Siôn a Liam, tra bod 'Y Wennol' wedi'i gynhyrchu gan Mei Gwynedd.

Dewiswyd i ail recordio a rhyddhau ambell drac megis 'Weithiau Mae'n Anodd' a 'Cadw Ffydd', i "gael y sain mwyaf diweddar a thriw o'r caneuon".

"Roedden ni isio i bobl ddadansoddi yr albwm fel yr hoffen nhw, doedden ni ddim eisiau pregethu atynt" meddai Liam.

Ond wedi myfyrio ar y caneuon ac ystyried negeseuon a themáu cudd, daeth yn amlwg bod themáu wedi ymddangos yn naturiol ar yr albwm. Teimla Siôn ei fod yn defnyddio cerddoriaeth i gyflwyno ei ddiddordebau mewn pethau sydd o bwys iddo i gynulleidfaoedd. Wrth fyfyrio ar yr albwm, teimlai Liam bod themâu o deithio, technoleg, dianc a symud, a'r amgylchedd yn amlwg iawn ymysg caneuon fel 'Roced', 'Fan Transit Coch', 'Y Wennol' a llawer mwy.

"Mae'r caneuon fel 'Cadw Ffydd' a 'Llethrau' yn ceisio hybu mudiadau cymunedol a *people power* yng nghefn gwlad" meddai Siôn.

Wrth holi am eu dewis i wneud yn albwm yn un dwy-iethog, ymateb Liam oedd ei fod "Eisiau dod a cherddoriaeth Gymraeg i bobl dros y ffin, sy'n ddi-Gymraeg".

Ychwanega Siôn y byddai'n "caru cael cynulleidfa dros y ffin, fyddai hefyd yn cael dôs o'r Gymraeg wrth wrando ar yr albwm". Dywedodd hefyd ei fod yn "naturiol i ni am ein bod wedi tyfu fyny'n ddwyieithog, a felly mae rhai pethau yn dod yn naturiol yn Gymraeg, a rhai eraill yn Saesneg. Felly ni fyddai eisiau "cau unrhyw ochr greadigol ohonaf i lawr rhag ofn i mi golli rhywbeth".

**Y trywydd nesaf**
Pan holais am gynlluniau nesaf y band, roeddwn yn gyffrous i glywed gan Liam bod dyddiad ganddynt yn y calander i "ddod a syniadau at ei gilydd mewn un crochan, a gweld beth ddaw o hynny."

Ond yn y cyfamser mae digonedd o gigs ganddynt dros yr haf y maent yn gyffrous amdanynt, gan gynnwys gigs yn Eisteddfod y Garreg Las, Eisteddfod Llangollen, Between The Trees, gig yn Llangrannog, ag un arall dros y ffin yn Manceinion.

20 mlynedd o

# LOWRI EVANS

**Mae hirhoedledd yn beth anodd iawn yn y diwydiant cerddoriaeth, felly mae unrhyw un sy'n llwyddo i barhau am ugain mlynedd, a bod yn gynhyrchiol iawn dros y cyfnod hwnnw'n haeddu clod. Mae Lowri Evans yn artist sydd wedi gwneud hynny ac yn dathlu ugain mlynedd ers rhyddhau ei record hir gyntaf eleni. A hithau'n byw yn Nhreftraeth rhwng Aberteifi ac Abergwaun, mae'r Eisteddfod Genedlaethol digwydd bod, ac yn briodol iawn, ar ei stepen drws eleni ac mae ganddi gasgliad newydd o ganeuon allan jyst mewn pryd. Bu'r Selar yn holi mwy...**

**Lowri, anodd credu ei bod hi'n 20 mlynedd ers i ti ryddhau dy albwm cyntaf. Beth ydy dy atgofion di o'r cyfnod cychwynol hwnnw - y gigio a recordio cynnar?**
Roedden i wedi dod nol gatre o fyw yn Newcastle Upon Tyne am 6 mlynedd a dechrau ysgrifennu a perfformio yn y Gymraeg. Roeddwn i yn chwarae solo am tipyn bach, wedyn wnes i sesiwn ar Radio Pembrokeshire gyda BB Skone (Malcolm Cawley) a ennilles i y sesiwn byw orau am 2004! Roeddwn I'n ffodus iawn bod Lee Mason yn gwrando ar y sesiwn ni a wedi mwynhau y gerddoriaeth. Ges i ebost wrtho yn gofyn i cwrdd ac i chwarae a dyna beth digwyddodd. Dechreuon ni chwarae sawl 'open mics' yn Gaerdydd a dechrau cael gigs, wedyn natho ni recordio EP bach yn stiwdio Lee.

**Pwy oedd y bobl fu'n dy helpu di dros y cyfnod cynnar? Faint o ddylanwd oedd criw Fflach?**
Roedd Richard a Wyn Fflach yn allweddol i'n gyrfa i.  Un dydd wnes i gwrdd a Wyn Fflach yn y stryd yn Aberteifi a wedodd e dylen ni recordo albwm...felly dyna beth wnes i! Recordion ni ddau albwm ac un EP gyda Fflach. Roedd Stiwdio Fflach yn lle mor groesawgar, roedd hi'n siawns i arbrofi a recordio caneuon gydag ambell i syniad dwl a *wacky* yn dod oddi wrth Wyn!



**Beth oedd dy uchelgais o ran dy gerddoriaeth? Oeddet ti'n credu bryd hynny y byddet ti dal wrthi ac yn mynd o nerth i nerth 20 mlynedd yn ddiweddarach?**
Roeddwn i wastad yn credu gallen i gael gyrfa yn y byd miwsig...ond ddim yn deall pa mor anodd bydde hi.

Roedd y deng mlynedd cyntaf yn greadigol iawn, recordio cerddoriaeth yn y Gymraeg a Saesneg, perfformio nifer o gigs a gwyliau, trefnu teithiau o amgylch y DU a chael y siawns i chwarae gyda cherddorion fantastig. Roedd hi'n amser cyffrous pan ddechreues i gael fy ngofyn i berfformio ar rhaglenni teledu fel 'Nodyn', 'Noson Lawen', 'Y Stiwdio Gefn', 'Heno'. Fe aethon ni i recordio cwpl o albyms yn Bridgerow Studio gyda Andy 'Wal' Coughlan a oedd yn hefyd dylanwad mawr arnom ni.

Ma'r byd cerddoriaeth wedi newid llawer yn y deng mlynedd diwethaf gyda byd y cyfryngau cymdeithasol. Mae pobl yn ffrydio cerddoriaeth am ddim y dyddiau yma, mae gwerthiant CDs bron a diflannu, mae'n byd hollol wahanol. Ma rhaid addasu er mwyn goroesi! Dyw hi ddim mor rhwydd y dyddiau yma i wneud bywoliaeth.

**Reit o drac cyntaf yr albwm cyntaf, 'Merch y Myny', mae'r ardal leol wedi bod yn amlwg iawn yn dy gerddoriaeth di. Faint o ddylanwad ydy'r gymuned ac ardal leol arna ti?**
Ma'r ardal a T'drath wedi bod yn dylanwad enfawr arnai. Dwi'n mynd i gerdded lan ar y myny ac yn cael fy ysbrydoli bob tro. Dwi'n dod gatre gyda llawer o syniadau...mae cerdded y myny fel therapi i fi...dwi'n sorto lot o bethe mas tra mas yn cerdded.

**Sut wyt ti'n teimlo am y ffaith bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod reit i dy stepen drws eleni?**
Ma fe yn fantastig bod yr Eisteddfod ar y stepyn drws eleni! A hefyd fy mod yn dathlu 20 mlynedd ers rhyddhau yr albwm cyntaf. Ma hi mynd i fod yn wythnos fishi iawn a dwi'n edrych ymlaen i feirniadu, perfformio a chymdeithasu da phob'un!

**Dwed mwy am y casgliad newydd o ganeuon sy'n dod allan gen ti.**
Mae'r casgliad newydd yn traciau dwi wedi dewis o albyms/EPs dros yr ugain mlynedd dwetha. Ges i lot o hwyl yn gwrando nôl arnynt a chlywed faint mae'r gerddoriaeth wedi newid ac aeddfedu...fel fi! Roedd hi'n grêt clywed rhai caneuon dwi ddim wedi clywed ers blynyddoedd ac yn atgoffa fi faint dwi wedi ysgrifennu a recordio, ac yn gwneud i fi deimlo'n eitha balch o'r cerddoriaeth dwi wedi creu dros yr ugain mlynedd dwethaf.




**Sut mae dy gerddoriaeth di wedi datblygu, ac esblygu dros y blynyddoedd?**
Mae'n beth pwysig i treual cadw'r gerddoriaeth yn ffres. Dwi'n hoff iawn o bob math o steil cerddoriaeth ac yn lwcus iawn bo fi'n gallu arbrofi ac ysgrifennu a recordio beth bynnag dwi isie gan ein bod ni'n rhyddhau ar ein label ein hunain. Dwi wedi ysgrifennu caneuon gwerin, pop, gwlad, blues a roc dros y blynyddoedd. Erbyn hyn dwi'n credu bod fy ngherddoriaeth yn bendant mwy Americana a gwlad.

**Ti wedi gweithio gyda Lee Mason ers y dechrau, ond dros y blynyddoedd diwethaf ti wedi cyd-weithio gydag amryw o artistiaid eraill - Sera, Tom McRae, Cleif Harpwood, Ryland Teifi i enwi rhai. Pa mor bwysig ydy'r ysbryd cydweithredol yna i ti o ran dy gerddoriaeth?**
Mae cyd-weithio gydag artistiaid eraill yn beth pwysig i fi. Dwi'n credu bod e'n gwneud ti'n well cyfansoddwr. Dwi'n hoff o ishte ar ben fy hun ac ysgrifennu ond ma fe lot mwy o hwyl gyda rhywun arall, i chi yn 'bounco' syniadau off eich gilydd ac yn ysgrifennu caneuon efallai bydde chi ddim yn gwneud ar ben eich hun.

Fe fyddai'n rhyddhau y sengl nesaf yn yr Hydref, wnes i cyd-ysgrifennu hon gyda Owen Powell (gitarydd Catatonia).

**A beth am yr ugain mlynedd nesaf? Beth ydy dy obeithion?**
Cadw fynd gobeithio! Cadw gwneud bywoliaeth, ysgrifennu, recordio a pherfformio a gwneud yn siŵr fy mod i'n dal i fwynhau beth dwi'n neud.

# Disglair - Popeth




TRAC WRTH DRAC (ESTYNEDIG!)

Rhyw hanner tudalen ydy Trac wrth Drac fel arfer, ond gan bod Disglair yn glamp o record uchelgeisiol, sy'n cyfuno doniau llwyth o artistiaid amrywiol, roedd rhaid clustnodi bach mwy o ofod ar gyfer albwm cyntaf Popeth. Popeth ydy prosiect 'pop positif' Ynyr Roberts, sy'n gyfarwydd iawn fel aelod o'r band Brigyn ac mae'r albwm yn glanio ar ôl cyfres o senglau.

Mae Disglair yn albwm cysyniadol, pob un o'r 14 cân yn llifo mewn i'w gilydd fel pe byddai'n set DJ mewn clwb nos neu barti. Dyma oeddd bwriad Popeth ers rhyddhau'r trac cyntaf yn haf 2022 meddai Ynyr – dod a mwy o gerddoriaeth EDM / pop Cymraeg i'r byd.

Arddull *House* sydd i fwyafrif o'r caneuon ar yr albwm - cerddoriaeth ddawns bositif, gyda churiadau cryf a melodiau 'soulful' yn rhoi naws hafaidd i'r caneuon.

Mae cyd-weithio wrth wraidd pob cân hefyd - gyda lleisiau amrywiol yn canu'r caneuon yn troi pob cân yn sioe unigryw. Dyma gasgliad o ganeuon i wrando arnynt wrth ymarfer corff, wrth gynnal parti...neu i'w mwynhau mewn unrhyw ffordd! Pa ffordd well i ddeall mwy am y cysyniad felly na thrwy eiriau Ynyr wrth iddo'n tywyd drac wrth drac...

**1. Acrobat**
Dyma'r gân sy'n dechrau'r albwm - cân sy'n diffinio sain ac arddull cerddoriaeth *House*, gyda churiadau cryf yn gyrru'r gân a digon o 'drops' ac adeiladu rhythmau. Roedd angen llais *'soulful'* a *'cool'* i serenu ar y gân. Roeddwn yn ffan mawr o'r grŵp Serol Serol pan oedden nhw yn rhyddhau cerddoriaeth ac yn ymwybodol o lais arbennig a swynol Leusa Rhys. Roeddwn i mor falch bod hi wedi cytuno i recordio'r gân hon!

**2. Rhywun yn rhywle**
Tesni Jones (o'r grwp pop Pheena) sy'n canu ar yr ail drac – dyma gân a enillodd cystadleuaeth Cân i Gymru! Roeddwn yn cyd-weithio'n rheoliadd gyda Steve Balsamo o Abertawe ar un cyfnod – fo roddodd yr her i mi sgwennu geiriau i'w alaw o. Fe aeth y gân ymlaen i ennill yn y Gŵyl-Ban-Geltaidd draw yn yr Iwerddon hefyd! *House Re-Mix* a wnaed yn 2024 o'r gân sydd ar yr albwm.

**3. Golau**
Anthem pop ddisglair a phositif a roddodd gyfle i Martha Grug o Gaerdydd, gael llwyfan i'w doniau llais. Dyma'r gân a ddechreuodd y siwrne i Popeth yn haf 2022. Roeddwn yn gwybod fod y gân hon yn wahanol i'r hyn roeddwn yn ei gyfansoddi fel arfer, ac yn swnio'n 'ffresh' ac 'egniol'... roeddwn angen llais fyddai'n rhoi'r egni 'newydd' i'r syniad 'ma oedd gen i, i fod yn dj/ cynhyrchydd pop - dwi'n teimlo'n ffodus iawn bod Martha wedi ateb y galw!

**4. Hapus**
*Cover* gyntaf o dair ar yr albwm yw teyrnged Popeth i arloeswyr Dawns-Pop Cymraeg, Diffiniad. Gyda help y gantores anhygoel Miriam Isaac a defnyddio llais eiconic Bethan Richards o'r recordiad gwreiddiol o 1992 - mae 'Hapus' yn cario'r teimlad o barti ymlaen! Bu i Miriam a finnau ffilmio fideo i'r gân hon yn PopWorld, Caerdydd ar gyfer rhaglen S4C, 3 Cân – roedd yn lot o hwyl!

**5. Celwydd**
Cân arall nodweddiadol o'r albwm yw'r remics o gân acwstic wreiddiol Local Rainbow. Roedd cyd-weithio gyda Rosie Reed (Local Rainbow) yn arwyddocaol gan mai dyma oedd y tro cynta iddi ganu yn y Gymraeg ar record!

**6. Diva**
Yr un oedd yr hanes gyda Liam J. Edwards - seren y gyfres gyntaf 'Y Llais', S4C - 'Diva' yw y tro cyntaf iddyn nhw ganu yn y Gymraeg ar record hefyd! Derbyniodd y ddwy gân, 'Celwydd' a 'Diva' ymateb ffafriol iawn gan y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol fel TikTok ac Instagram. Caneuon wnaeth yn sicr ddenu sylw pellach i sŵn egniol Popeth ac amlygu hanfod pwysig o'r prosiect – sef cyd-weithio i gynhyrchu cerddoriaeth cyffrous a hefyd creu cyfleuon ac atgofion arbennig.

**7. Rebal heb achos**
Mae hon, ynghyd â dwy gân arall ar yr albwm yn rhoi llwyfan i lais swynol Hanna Seirian o Flaenau Ffestiniog. Cân ddawns-bop ysgafn ydi hon, sy'n gyferbyniaeth i sain 'anthemic' yr albwm hyd yn hyn. Dyma'r gân gyda'r tempo cyflyma ar yr albwm ond mae naws ysgafn y cynhyrchu yn golygu bod y gân yn ymddwyn fel seibiant bach o'r curiadau trwm.

**8. Newid**
Naws ysgafn ac ymlaciol sydd hefyd i 'Newid' - gyda llais *soulful* Kizzy Crawford yn canu. Kizzy ei hun a gynhyrchodd y gân hefyd. Roeddwn yn ddiolchgar iawn iddi am dderbyn yr her o ganu, chwarae'r rhan fwyaf o'r offerynnau a chynhyrchu'r gân, a dod a'r syniad oedd gen i'n fyw!

**9. Gad iddi fynd**
Ail gân *'cover' sydd* yr albwm - clasur o gân gan yr eicon *rock-blues* Cymraeg, Steve Eaves. Mae hi'n un o fy hoff ganeuon i, ers i mi ei chlywed gynta yn 2007 ar yr albwm Moelyci. Trio osgoi canu a chymryd cam o'r llwyfan oedd bwriad Popeth – ond mae'r prosiect wedi caniatau mi allu talu teyrnged i'm arwyr cerddorol, gan bod Pop yn gyfrwng mor hawdd i'w addasu! Tra'r oeddwn yn y stiwdio, gofynnais i Hanna Seirian ymuno efo fi fel llais cefndir ar hon.


**10. Melys**
Hanna sydd hefyd yn canu ar ddegfed trac yr albwm, 'Melys'... cân *synth-club-dance* cyfoes i ddarlunio'r sîn clybiau nos ar gyfandir Ewrop e.e. clybiau nos Ibiza. Mae curiad cyson y gân yn ein rhoi ni'n ôl mewn i deimladau hafaidd, positif.

**11. Blas y Diafol**
Aros gyda'r clybiau nôs ydyn ni efo'r trac *acid-house* a gyd-ysgrifennwyd a pherfformiwyd gan Bendigaydfran. Erbyn hyn mae'r gân wedi dod yn arferol i'w rhoi ar restrau chwarae Calan Gaeaf oherwydd ei natur dywyll a dwys. Rhoddod y gân hon y cyfle i Bendigaydfran recordio am y tro cyntaf, ac yna wrth elwa o'r profiad - aeth ymlaen i recordio a rhyddhau y glasur pop 'Pwy sy'n crio nawr'!

**12. Dal y Gannwyll**
Cân arall sy'n fwy tywyll ei naws, a thrydydd *cover* yr albwm. Eto, cân dwi wedi bod yn hoff iawn ohoni ers blynyddoedd maith - a theyrnged Popeth i un o grwpiau pop-roc mwya' Cymru erioed... Sobin a'r Smaeliaid. Grŵp o'r 80au... oes y casét!! Tra'n recordio'r gân 'Acrobat' yng Nghaerdydd, roedd gan Leusa awr rydd cyn dal y trên nôl am Lundain. Cytunodd i ddysgu a chanu'r gân yma efo fi a'i throi'n ddeuawd! Awr gynhyrchiol iawn dwi dal yn ei thrysori!

**13. Agor y Drysau**
Mae'r albwm yn cloi gyda dwy gân sy'n arafu'r tempo ac yn cynnig ennyd o seibiant i adlewyrchu... *'the last dance(s)'* efallai?! Mae 'Agor y Drysau' yn rhoi llwyfan i Elin Wiliam, llais newydd i'r sîn, i gymryd y llyw. Roedd Elin a minnau yn arfer cyd-weithio yn ein gwaith 9-5, ac mewn digwyddiadau gwaith trodd y syniad o gyd-weithio yn realiti. Roeddwn yn chwilio am rywun i ganu'r gân ac Elin ei hun hefyd eisiau'r profiad o recordio – felly roedd yn ddatrysiad perffaith!

**14. Zodiacs**
Daw'r albwm i ben gyda lleisau cyfarwydd iawn a dau gwir eicon i gerddoriaeth Cymru. Rhennir y gwaith o gyflwyno 'Zodiacs' gan Gai Toms a Tara Bandito! Mae'r gân hon yn eitha dystopaidd, ond hefyd yn darparu neges o obaith mewn adeg dryslyd. Roeddwn yn chwilio am leisiau cryf, gyda chymeriad ac ansawdd i orffen y casgliad. Pwy well na Gai a Tara! Dau dwi wedi eu edmygu'n fawr ers iddyn nhw ddechrau canu a chyfansoddi! Mae Zodiacs yn crynhoi themâu'r prosiect, yn gwneud defnydd o leisiau arbennig ac yn dangos bod cyd-weithio eclectig yn gwneud yr albwm yn un positif a disglair!






Darlun gan Lucy Jenkins / Drawn To Ice Hockey